

## **Cyngor Cymuned Llanelian (299)**

Cofnodion cyfarfod Mehefin 5, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Helen Hughes, Hefina Williams, Glenys Jones, Ian Evans, Elfyn Hughes, John Griffiths, Thomas Jones, Cyng. Aled Morris Jones, Cyng. Richard Jones

**Ymddiheuriadau:** Gordon Hayes, Carol Whitaker, Dafydd Griffiths

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc), Ned Michael (CSYM)

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Dim

### **4 Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Wedi trafod pellach, nododd Elfyn Hughes y byddai yn fodlon cymryd y gadair am flwyddyn gan nodi na fyddai yn gallu mynychu cyfarfodydd allanol. Eiliwyd y cynnig gan Ian Evans gyda chefnogaeth unfrydol ac fe ddiolchodd Thomas Jones iddo gan nodi ei bod yn bwysig blaenioraethu'r cyngor er budd y gymuned.

Cytuno byddai penodi is-gadeirydd yn y cyfarfod nesaf, a chadarnhau pryd hynny aelodaeth yr is-bwyllgorau.

### **3 Mr Ned Michael (Adran Tai CSYM)**

Cadeiriwyd yr eitem yma gan Hefina Williams ac fe groesawyd Mr Michael i'r Cyngor. Diolchodd Mr Michael am y gwahoddiad gan ymddiheuro ei fod yn hwyr yn cyrraedd. Nododd y gobeithiai gallu egluro i'r aelodau sut mae CSYM yn darparu tai fforddiadwy ac aeth ati i esbonio gwahanol gynlluniau rhentu, prynu ecwiti, a thai fforddiadwy dan amodau cynllunio 106. Nododd bod prinder tai fforddiadwy ar yr ynys, a bod arolygon anghenion tai yn dangos hynny yn ogystal â'r rhestrau aros.

Cadarnhaodd fod Grŵp Cynefin wedi prynu'r holl dai yn natblygiad ac mai'r bwriad oedd eu gosod ar rent canolraddol. Nododd Mr Michael bod tair cymdeithas tai yn gweithio ym Môn, ac mai rôl CSYM oedd ceisio cadw cydbwysedd a sicrhau argaeledd i'r rheini oedd methu fforddio prynu na rhentu ar y farchnad agored.

Nododd Thomas Jones ei fod yn bryder i'r gymuned a fyddai'r tai ar gael i bobl leol ynteu i bobl symud yma i ymddeol. Nid oes gan bobl ifanc obaith prynu tai yn y gymuned leol. Cadarnhaodd Mr Michael bod hwyluswyr tai gwledig wedi cynnal arolwg yn ddiweddar, a byddai'r broses o osod y tai yn blaenoriaethu cysylltiad lleol wrth ystyried gwahanol faeni prawf. Byddai hyn yn sicrhau mai pobl sydd yn byw ac yn gweithio yn yr ardal (Llanelian) fyddai yn cael blaenoriaeth, os na fydd y tai yn cael eu gosod, bydd gwahoddiad i bobl o ardaloedd cynghorau eraill ar y ffin (Amlwch a Rhosybol) ac yn y blaen. Ni fyddai'r tai yn cael eu gosod i bobl oddi ar yr ynys yn unol â'r polisi gosod lleol. Nodwyd byddai'r tai yn aros yn wag heb eu gosod os na fyddai unrhyw un o Fôn eu hangen. Bydd yr un polisi yn cael ei weithredu pan fyddai'r tai yn newid tenantiaeth gydag ardal Llanelian eto yn cael blaenoriaeth.

Cydnabuwyd yr effaith fydd adeiladu Wylfa Newydd yn ei gael ar yr ynys, a'r her o ddiogelu tai i bobl leol.

Gan mai Grŵp Cynefin sydd berchen ar ddatblygiad Dublin, ganddynt hwy fydd y gair olaf ynglŷn â gosod y tai. Mae rhai cynghorau cymuned wedi gofyn i fod yn rhan o'r broses sgrinio i wirio tystiolaeth o gyswllt lleol rheini sydd yn ymgeisio am dy. Nodwyd fodd bynnag mai Grŵp Cynefin fel perchennog y datblygiad fyddai'n datgan pwy sy'n gymwys. Cytuno cysylltu â Grŵp Cynefin i ofyn am gael fod yn rhan o'r broses.

Cafwyd wybod gan Mr Michael bod rhent canolraddol o fewn cyrraedd budd-daliadau tai ond na fyddai tai yn cael eu gosod i rywun oedd yn ddibynnol ar fudd-dal i gychwyn, petai amgylchiadau unigolion yn newid tra eu bod yn byw yn y tŷ byddai hynny yn wahanol.

Cafwyd cadarnhad na fyddai tai datblygiad Dublin yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored ac felly bod sicrwydd byddai tai fforddiadwy ar gael i bobl leol yn y dyfodol.

Diolchwyd i Mr Michael am ymuno a'r cyfarfod ac am ymatebi bryderon yr aelodau. Bu iddo adael y cyfarfod am 7.45 o'r gloch.

## **5** **Cadarnhau Aelodaeth yr Is-bwyllgorau**

Cadeiriwyd y cyfarfod o hyn allan gan Elfyn Hughes.

Bydd cadarnhau aelodaeth yr is-bwyllgorau unwaith bydd is-gadeirydd wedi ei benodi/phenodi.

## **6** **Cadarnhau Cynrychiolwyr ar Bwyllgorau Allanol**

Bydd cadarnhau cynrychiolaeth ar bwyllgorau allanol unwaith bydd is-gadeirydd wedi ei benodi/phenodi.

## **7** **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio Helen Hughes.

## **8** **Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**8.1 Datblygiad Dublin** - daw cais gan Grŵp Cynefin am enwau posib ar gyfer y datblygiad. Cytuno anfon yn ôl gyda'r awgrymiadau canlynol - 1-9 Dublin, 1-9 Maes Dublin neu 1-9 Stad Dublin.

**8.2 Giatiau Mynwent** - Cafwyd cadarnhad bod caniatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo ar gyfer Giât Mynwent Eilian. Bydd angen cael prisiau cyfredol am y gwaith a chynlluniau manwl i'w cyflwyno i CSYM cyn ymgymryd â'r gwaith. Cytuno gofyn i'r Eglwys am gyfraniad tuag at y gost o osod giât newydd. Cafwyd cadarnhad gan Henaduriaeth Môn bod giatiau newydd wedi eu harchebu ar gyfer mynwent Bosra

**8.3 Llwybrau a Phrifyrdd** - Cafwyd wybod gan Aled Jones bod CSYM yn delio a'r pentwr coed ger ymyl y briffordd a bod pryderon y Cyngor yn cael sylw.

Nodwyd bod baw ci dal yn broblem ar Lon Tyddyn Waen ac ar y ffordd osgoi. Mae swyddog CSYM wedi ymweld â'r pentref eisoes. Aled Jones i gysylltu â gofyn am ymweliad arall.

Mae'r 'manhole' ger y Bedol yn parhau yn beryglus, erbyn hyn mae rhywun wedi gosod côn ar ei ben ond did yw'r caead wedi ei drwsio.

**8.4 Diogelu Data GDPR** - Cadarnhaodd y clerc bod y wefan wedi ei ddiweddarau ac mae rhybudd preifatrwydd wedi ei anfon at yr aelodau i gyd ynghyd a chontractwyr y Cyngor yn gymwys ag anghenion diogelu data. Mae angen i'r Cyngor fabwysiadu polisi diogelu data a gwybodaeth. Cytuno mabwysiadu'r ddogfen bolisi a'i adolygu ymhen blwyddyn.

## **9** **Caeau Chwarae**

Nodwyd bod pobl yn mynd a'u cwn i'r cae chwarae. Y clerc i wirio'r arwyddion sydd yno a threfnu bod arwyddion dim cwn yn cael eu gosod cyn gynted â phosib.

Nodwyd bod yr offer chwarae yn cael ei baentio ar hyn o bryd.

Nododd Ian Evans fod criw o blant oedd yn aros ar y maes carafanau wedi dweud bod rhywun wedi bod yn eu gwyllo tra yn y cae chwarae. Cytuno cadw golwg ar y sefyllfa a chodi ymwybyddiaeth y PCSO lleol. Nid oedd rhieni'r plant dan sylw am gymryd camau pellach yn yr achos yma.

## **10 Llithrfa**

Mae oddeutu 40 o oriadau wedi eu dosbarthu hyd yma, ac fe nodwyd nad oedd cwynion gyda'r postyn hyd yma. Cafwyd wybod bod y goeden ar y gylchfan wedi ei dorri a bod pobl yn dal i barcio yno. Cytuno bod angen gosod rhwystr i atal hyn rhag digwydd gan nodi bod maes parcio di-dâl ger y toiledau.

## **11 Cynllunio**

**11.1 Ceisiadau** – ni fu ceisiadau i'w cyflwyno

**11.2 Penderfyniadau** – ni fu penderfyniadau i'w cofnodi.

**11.3 Polisi atodol** - mae CSYM yn ymgynghori ar bolisi cynllunio atodol yn ymwneud a thai a llety. Dafydd Griffiths a Hefina Williams i edrych ar y dogfennau ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

## **12 Materion Ariannol**

### **12.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
£286.07 Cyflog Clerc  
£85.75 Viking Direct (inc)  
£66.00 R Edwards (Mynwent Bosra – i'w ad-dalu)  
£160.00 R Williams (Mainc Lon Tyddyn Waen)  
£55.00 Anglesey Computer Solutions (GDPR)  
£460.81 Came and Company (Yswiriant)  
£11.85 G Hayes (gosod meinciau)

### **12.2 Ceisiadau am Arian**

Nid oedd ceisiadau o'r newydd i'w ystyried. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Gwenno Owen yn dilyn cyfraniad tuag at ei ymweliad a Phatagonia.

Cadarnhawyd bod Cyngor Cymuned Rhosybol yn fodlon cymryd yr awenau ar gyfer trefnu'r digwyddiad coffa ar Fynydd Parys, ac roedd yr aelodau yn fodlon cyfrannu £250 tuag at y gost yn unol â chynghorau eraill y dalgylch.

Nodwyd bod y Milwr Tawel wedi ei osod ger y gofeb gan y clwb ieuenctid erbyn hyn a'i fod yn effeithiol iawn. Cytuno gosod arwydd tebyg yn y Gymraeg yn datgan cefnogaeth y Cyngor i'r prosiect.

### **12.3 Archwiliad**

Mae'r archwiliad mewnol wedi'i gwblhau erbyn hyn. Nodwyd bod angen edrych ar ddatblygu asesiad risg mwy manwl o fewn y flwyddyn ariannol. Cytuno byddai'r is-bwyllgor cyllid a pholisi yn cwrdd ym mis Awst i drin a thrafod.

Cymeradwywyd dogfennau BDO i'w cyflwyno i'r archwiliwr allanol.

## **13 Cronfa Tŷ Moel Isaf**

Cytuno bod angen trefnu cyfarfod arbennig i drafod egwyddorion sut bydd yr arian yn cael ei reoli. Y clerch i drefnu cyfarfod o fewn y pythefnos nesaf, a gyrru copi o'r llythyr a'r tamaid ewyllys at yr aelodau i gadarnhau trefniadau.

**14 Iechyd a Diogelwch** - dim materion ychwanegol i'w ystyried.

## **15 Wylfa Newydd**

Cafwyd wybod bod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Môn yn cwrdd nos yfory gydag arbennigwyr Horizon i drafod eu strategaeth rheoli gweithwyr a lletya. Mae'r cais DCO wedi ei gyflwyno gan Horizon erbyn hyn ac mae gan yr arolygwyr cynllunio 28 diwrnod i dderbyn y cais yn swyddogol cyn i'r broses o archwilio ac ystyried y cais ddechrau o ddifrif. Bydd John

Griffiths a Dafydd Griffiths yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth ar ran y Cyngor.

## **16 Gohebiaeth**

- 16.1** Fforwm Iaith - cafwyd cais am gefnogaeth ac i ysgrifennu yn gofyn i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymorth ariannol i alluogi cynghorau tref a chymuned i gynnig gwasanaeth cyfieithu er mwyn sicrhau bod aelodau yn gallu cyfrannu i gyfarfodydd yn y Gymraeg os dymunent wneud hynny. Cytuno ysgrifennu mewn cefnogaeth.
- 16.2** Hawliau Tramwy – mae CSYM yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynllun gwella hawliau tramwy. Mae manylion pellach i'w cael ar wefan y Cyngor.

## **17 Unrhyw Fater Arall**

- 17.1** Torri gwair - gofynnwyd a oedd unrhyw reswm pan fod CSYM yn hwyr yn torri gwair ar ymyl y ffyrdd. Mae'r cyffyrdd yn beryglus iawn a gwelededd wedi ei amharu gan dyfiant.
- 17.2** Hyfforddiant - nododd Richard Jones bod hyfforddiant am ddim i gael ar sut i ddefnyddio'r diffibriwleiddwyr. Cytuno byddai yn trefnu noson a rhoi gwahoddiad i'r gymuned ehangach.
- 17.3** Mynediad i'r Eglwys - cafwyd wybod gan un o wardeniaid yr Eglwys bod perchennog Ty'n Rardd wedi codi estyniad ar y tŷ a bod hwnnw yn rhwystro mynediad i'r Eglwys drwy'r giât bren. Cytuno gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â pherchnogaeth y tir dan sylw.
- 17.4** Gardd Top Rallt - cytuno gofyn i Richard Edwards gael golwg ar yr ardal a'i dwtio cyn gynted â phosib.
- 17.5** Britain's Got Talent - cytuno ysgrifennu at Gruffydd Wyn (Gruff Corwas) i'w longyfarch ar ei lwyddiant yn y gystadleuaeth, a hefyd ysgrifennu i Arwel Hughes a'i dim i ddiolch am drefnu noson yn Amlwch ar gyfer y rownd derfynol.

## **18 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Gorffennaf 3, 2018 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50.

**Arwyddwyd**  
**Elfyn Hughes**  
**Cadeirydd**

CET06/2018